Hysbysiad Preifatrwydd – Barnardo's yr Elusen

Awst 2023

Cafodd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ei ddiweddaru ddiwethaf ar **2 Awst 2023**.

Mae Barnardo's yn parchu eich preifatrwydd ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu eich data personol, ac i fod yn dryloyw ynglŷn â sut yr ydym yn ei gasglu a'i ddefnyddio. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn egluro sut rydym yn defnyddio'r data personol a roddir gennych chi neu a roddir i ni gan drydydd parti. Rydym yn defnyddio cwcis yn ein gwefan. Darllenwch ein Hysbysiad Cwcis i gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio cwcis.

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn berthnasol i holl endidau cyfreithiol ac is-gwmnïau Barnardo's a elwir yn "The Barnardo Group", sy'n cynnwys:

- Barnardo Events Limited (2270706)
- Barnardo Services Limited (1227919)
- Barnardo Trading Limited 886425

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

1. **Gwybodaeth bwysig am bwy ydym ni**
2. **Y data personol rydym yn ei gasglu gennych chi, sut yr ydym yn ei gasglu a sut yr ydym yn ei ddefnyddio:**
    a. Pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau neu sy'n darparu lleoliad teulu
    b. Pobl sy'n ein cefnogi
    c. Ymwelwyr â'n siopau a'n gwefan
    d. **Ymgeiswyr am Swyddi a Gwirfoddolwyr**
    e. Ein cyflogeion presennol a chyn gyflogeion, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr
3. Rhannu eich data a'i drosglwyddo i wledydd eraill
4. Sut yr ydym yn cadw eich data'n ddiogel
5. Eich Hawliau Cyfreithiol

Os ydych chi'n prynu pethau o'n siopau, gan gynnwys siopau ar-lein, gallwch ddarllen ein Hysbysiad Preifatrwydd Adwerthu yma.

1. Gwybodaeth Bwysig am bwy ydym ni

Mae'r wefan hon yn eiddo i Barnardo's (Yr Elusen) ac yn cael ei gweithredu ganddi, ac yn Rheolydd Data hefyd. Mewn rhai amgylchiadau, gall yr awdurdod lleol neu'r asiantaeth sy'n ariannu'r gwasanaeth a ddarperir gan Barnardo's hefyd fod yn Rheolydd Data mewn perthynas â'r data personol rydym yn ei gasglu.

Mae Barnardo's yn elusen gofrestredig (cofrestredig yn Lloegr Rhif 216250, cofrestredig yn yr Alban Rhif SC037605) ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant (61625 Lloegr).

Y swyddfa gofrestredig yw:
Barnardo's
Tanners Lane
Barkingside
Ilford
Essex
IG6 1QG

Mae **Swyddog Diogelu Data** (DPO) Barnardo's, Martine King, yn gyfrifol am ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych ynglŷn â'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn. Gellir cysylltu â Martine yn y cyfeiriad uchod, trwy e-bost: dpo@barnardos.org.uk

Mae gennych chi'r hawl i gwyno ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), awdurdod goruchwylio'r Deyrnas Unedig ar gyfer materion diogelu data (www.ico.org.uk). Fodd bynnag, byddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddelio ag unrhyw beth sy'n eich poeni cyn i chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd, felly mae croeso i chi gysylltu â ni'n gyntaf.

Gallwn ddiweddaru'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd. Os byddwn yn gwneud newidiadau sylweddol, byddwn yn rhoi hysbysiad ar ein gwefannau.

2. Y data personol rydym yn ei gasglu gennych chi, sut rydym yn ei gasglu a sut rydym yn ei ddefnyddio

Defnyddiwch y mynegai isod i fynd i'r rhan berthnasol o'r adran hon sy'n berthnasol i chi:

a. Pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau neu sy'n darparu lleoliad teulu

b. Pobl sy'n ein cefnogi

c. Ymwelwyr â'n siopau a'n gwefan

d. Ymgeiswyr am Swyddi a Gwirfoddolwyr

e. Ein cyflogeion presennol a chyn gyflogeion, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr

a. Pobl sy'n defnyddio ein Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc ac sy'n darparu lleoliad teulu

Mae'r adran hon yn egluro pa wybodaeth mae Barnardo's yn ei chasglu, yn ei chadw ac yn ei storio amdanoch chi a / neu eich teulu os ydych chi'n cael un o'n gwasanaethau, neu os ydych chi'n darparu gofal neu lety â chymorth. Mae'n bosibl y cewch chi hefyd wybodaeth gan eich gwasanaeth am y data personol a gedwir ganddyn nhw a beth sy'n digwydd iddo. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y daflen 'Eich Data Eich Hawliau' (taflen wybodaeth sy'n benodol i wasanaeth, sy'n rhoi manylion i chi am y data personol sydd gan Barnardo's amdanoch chi a sut mae'n cael ei brosesu wrth ddarparu gwasanaeth).

Pa ddata personol ydym ni'n ei gasglu?

Mae Barnardo's yn cadw data personol amdanoch chi a all gynnwys:

- Eich enw, cyfeiriad a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad e-bost a rhif ffôn, yn ogystal â dewisiadau cyswllt;
- Dyddiad geni, oedran;

- Rhywedd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rywiol, ethnigrwydd, crefydd, cenedligrwydd ac ieithoedd a siaredir;
- Anableddau;
- Gwybodaeth gyswllt mewn argyfwng;
- Enw'r ysgol neu'r sefydliad;
- Dewisiadau marchnata o ran cyswllt gan adrannau corfforaethol a chyfleoedd yr hoffech glywed amdanynt.

Byddwn hefyd yn cofnodi gwybodaeth am eich gallu i ofalu am blant (lle bo hynny'n briodol), eich anghenion cymorth a'r gwasanaeth a ddarperir i chi, gan gynnwys adrodd ar achosion, cynlluniau ac adolygiadau, yn ogystal â'ch dewisiadau cyswllt a'ch cydsyniadau, os yw hynny'n berthnasol.

Ar gyfer gofalwyr maeth a mabwysiadwyr, rhaid i Barnardo's geisio gwybodaeth am euogfarnau troseddol, troseddau a data iechyd. Mae hyn yn angenrheidiol at ddibenion cynnal y gwiriadau priodol yn ystod asesiadau yn unol â rheoliadau maethu a mabwysiadu.

Mae Barnardo's yn defnyddio teledu cylch cyfyng (CCTV) mewn rhai o'i wasanaethau i gadw plant, pobl ifanc a staff yn ddiogel. Os byddwch yn defnyddio un o'r gwasanaethau lle mae hyn yn digwydd byddwn yn dweud wrthych. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar Bolisi Dyfeisiau Monitro a CCTV Barnardo's.

Pam fod angen i ni gasglu eich data personol?

Rydym yn casglu eich data personol er mwyn darparu gwasanaethau i chi, cynnig cyfleoedd a allai fod yn werthfawr ac o ddiddordeb i chi, i sicrhau diogelwch ein staff a'n plant o dan ein gofal, ac i wneud yn siŵr bod ein gwasanaethau'n diwallu eich anghenion.

Rydym yn prosesu eich data yn unol â'n buddiannau cyfreithlon o ran darparu gwasanaethau diogel ac effeithlon o ansawdd uchel. Os oes gennym gontract gyda chi, byddwn hefyd yn prosesu eich data er mwyn darparu ein gwasanaethau o dan y contract hwnnw. Lle bo'n berthnasol, rydym hefyd yn prosesu er mwyn cyflawni tasgau sydd er budd y cyhoedd, ac os oes angen (a lle bo'n briodol) mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cael eich cydsyniad i brosesu eich data. Pan fyddwn yn dibynnu ar eich cydsyniad i brosesu, mae gennych hawl i dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg. Nid yw hyn yn effeithio ar gyfreithlondeb ein prosesu cyn tynnu'n ôl.

Mae tîm Ymchwil a Gwerthuso Barnardo's yn defnyddio data personol, gan gynnwys data personol sensitif, yn eu gweithgareddau ymchwil, a fydd yn cynnwys gwerthuso ein gwasanaethau. Mae ymchwil yn caniatáu i ni sicrhau bod ein gwasanaethau, ein rhaglenni a'n hymgyrchoedd yn cefnogi plant a theuluoedd mor effeithiol â phosibl. Rydym yn dibynnu ar ein diddordeb buddiant cyfiawn mewn darparu'r gwasanaeth gorau posibl fel ein sail gyfreithiol ar gyfer ymchwil o'r fath.

Gyda phwy ydym ni'n rhannu eich data personol?

Rydym yn rhannu eich data personol â'r sefydliad sy'n talu am eich gwasanaeth neu ag asiantaethau allanol sy'n arolygu ein gwaith, a gyda darparwyr gwasanaeth trydydd parti. Byddwch yn cael taflen 'Eich Data Eich Hawliau' a fydd yn rhoi mwy o fanylion i chi. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ni rannu eich data ag asiantaethau eraill am resymau cyfreithiol, gorchymyn llys er enghraifft, neu â sefydliadau eraill os ydym yn credu eich bod mewn perygl o niwed neu y gallech niweidio rhywun arall.

Mae'n bosibl y bydd adegau pan fyddwn yn gofyn am eich cydsyniad i ddefnyddio eich data - er enghraifft, i ddarparu gwybodaeth i chi a chyfleoedd i ddweud eich dweud neu ddylanwadu, i'n helpu i hysbysu'r cyhoedd am ein gwaith, i'ch helpu i gael gafael ar wasanaethau eraill, neu at ddibenion ymchwil academaidd. Os mai dyna fydd yr achos, byddwn yn egluro i chi at ba ddiben yn union fydd eich

data’n cael ei ddefnyddio. Gallwch dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg, ac os bydd hynny’n bosibl, bydd unrhyw ran o’ch data a ddefnyddiwyd i ddibenion cyhoeddusrwydd yn cael ei dileu.

Weithiau bydd yn ofynnol i Barnardo’s drosglwyddo eich data i’r awdurdod lleol sydd wedi ein comisiynu i ddarparu eich gwasanaeth, neu i sefydliad arall sy’n darparu gwasanaeth i chi. Bydd y daflen ‘Eich Data Eich Hawliau’ yn rhoi mwy o fanylion i chi am yr hyn fydd yn digwydd i’ch data.

Am ba hyd ydyn ni'n cadw eich data personol?

Bydd Barnardo's yn cadw eich data personol am gyfnod penodedig ar ôl i ni orffen gweithio â chi, cyfnod a fydd yn dibynnu ar natur y gwasanaeth a'n dyletswyddau cyfreithiol. Bydd y daflen ‘Eich Data Eich Hawliau’ yn dweud wrthych am faint y byddwn yn cadw eich data, a pham.

b. Pobl sy’n ein cefnogi

Mae’r adran hon yn esbonio pa wybodaeth mae Barnardo’s yn ei chasglu, yn ei chadw ac yn ei storio amdanoch os byddwch yn holi am ein gweithgareddau, yn rhoi rhodd i ni, yn cefnogi ymgyrch, yn cymryd rhan yn loterïau neu rafflau Barnardo’s, yn mynegi diddordeb mewn gadael rhodd yn eich Ewyllys, neu’n rhoi gwybod i ni am eich bwriad i wneud hynny, neu’n gofyn cwestiwn am ein gwasanaethau.

Pa ddata personol ydym ni’n ei gasglu?

Gall y data personol rydym yn ei gasglu gynnwys:

- Eich enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhifau ffôn;
- Oedran, dyddiad geni;
- Lleoliad;
- Manylion cyfrif banc/cerdyn;
- Rhywedd;
- Eich cysylltiad blaenorol â’n hymgyrchoedd codi arian;
- Dewisiadau a chaniatadau cysylltu;
- Statws cymorth rhodd, statws codi arian, rheswm dros roi/codi arian/cymryd rhan mewn loteri neu raffl, gwybodaeth am ddigwyddiadau rydych yn cymryd rhan ynddynt a’ch gweithgareddau codi arian, mynediad at gyfleusterau;
- Enw’r ysgol neu’r sefydliad;
- Rhif cyflogai neu rif YG (at ddibenion Loteri Gweithle’r Clwb Enillwyr);
- Dolenni cyfryngau cymdeithasol; a
- Manylion ysgutorion a buddiolwyr a'ch perthnasau teuluol.

Nid ydym yn storio manylion eich cerdyn credyd na’ch cerdyn debyd.

Gallwn gasglu data sensitif, fel gwybodaeth am iechyd, credoau crefyddol a safbwyntiau gwleidyddol am ein cefnogwyr lle ceir rhesymau amlwg dros wneud hynny, fel cymryd rhan mewn digwyddiad rhedeg

neu gerdded, neu ddigwyddiad codi arian tebyg neu lle mae angen i ni sicrhau ein bod yn darparu cyfleusterau neu gymorth penodol i'ch galluogi chi i gymryd rhan mewn digwyddiad.

Gallwn gael eich data personol gan ddarparwyr data trydydd parti, ond dim ond os byddant yn dangos tystiolaeth briodol eich bod wedi cytuno i'ch data personol gael ei rannu â sefydliadau eraill. Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth gyffredinol am y defnydd a wneir o'n gwefannau, fel tudalennau mae pobl wedi ymweld â hwy a mannau sydd o fwyaf o ddiddordeb i ddefnyddwyr. I gael rhagor o wybodaeth, gweler adran 2c. "**Ymwelwyr â'n siopau a'n gwefan**".

O bryd i'w gilydd rydym yn cael gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus, fel gwybodaeth gyswllt, neu rydym yn ymchwilio i wybodaeth i'n helpu i wneud gwiriadau diwydrwydd dyladwy i sicrhau nad ydym yn cael ein heffeithio gan dwyllwyr neu droseddwyr sy'n cymryd arnynt eu bod yn rhoddwyr, neu i sicrhau nad oes gwrthdrawiad buddiannau o gyfeiriad darpar gefnogwyr neu fudiadau cyn i ni ymgysylltu â hwy. Rydym yn gwneud y gwiriadau hyn i helpu i'n hamddiffyn rhag troseddau.

Pam fod angen i ni gasglu eich data personol?

Rydym yn defnyddio eich data personol er mwyn:

- Delio â'ch ymholiadau (gan gynnwys ymholiadau hanes teulu), ceisiadau a chwynion;
- Prosesu eich rhoddion ac archebion a wneir ar-lein neu drwy ein siopau;
- Gweinyddu ein loterïau a'n rafflau;
- Darparu gwybodaeth i chi am ein gwaith, ein gweithgareddau, ymchwil, digwyddiadau a gwasanaethau;
- Cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol, polisïau a gweithdrefnau, er enghraifft, hawlio Cymorth Rhodd;
- Darparu a phersonoleiddio ein gwasanaethau;
- Gweinyddu cymynroddion yn eich Ewyllys;
- Cynnal ein hymgyrchoedd, codi arian ac anfon negeseuon marchnata;
- Addasu'r hysbysebion a'r marchnata rydych chi'n eu gweld ar gyfryngau cymdeithasol a sianeli digidol i rannu'r wybodaeth fwyaf priodol a pherthnasol â chi;
- Mesur effeithiolrwydd marchnata a hysbysebu digidol; a
- Chynnal ymchwil i'r farchnad.

Rydym yn prosesu eich data personol at y dibenion hyn yn unol â'n buddiannau cyfreithlon wrth brosesu taliadau, codi arian, hyrwyddo ein gweithgareddau elusennol, personoli ein gohebiaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, ac ymateb i chi pan fyddwch yn gwneud ymholiad. Rydym hefyd yn prosesu eich data yn ôl y gyfraith neu gyda'ch cydsyniad chi, fel pan fyddwch chi'n rhoi cydsyniad i ni anfon deunydd marchnata atoch. Ni fyddwn byth yn trosglwyddo eich data personol i sefydliadau eraill i gael ei ddefnyddio i'w dibenion marchnata eu hunain.

Rydyn ni'n defnyddio eich data personol i deilwra'r hysbysebion rydych chi'n eu gweld ar gyfryngau cymdeithasol, ac i fesur pa mor effeithiol ydyn nhw. Gall hyn fod drwy ddarparu llwyfan trydydd parti

gyda rhestr o gyfeiriadau e-bost neu rifau ffôn maent yn eu defnyddio i dargedu unigolion gyda'n hysbysebion, neu i'w heithrio rhag eu gweld.

Weithiau, mae'n bosibl y byddwn ni hefyd yn darparu rhestr o gyfeiriadau e-bost neu rifau ffôn i lwyfannau trydydd parti er mwyn creu cynulleidfaoedd Tebyg (lle gallwn dargedu hysbysebion at gynulleidfaoedd sydd fwyaf tebyg i'n cynulleidfaoedd presennol). Ni fyddwn yn cynnwys cynulleidfaoedd yn y rhestrau hyn oni bai eu bod wedi dewis derbyn ein hysbysebion. Gallwch newid eich gosodiadau ar gyfryngau cymdeithasol i atal y math hwn o dargedu gan hysbysebwyr penodol neu gan bob hysbysebwr.

Dim ond pan fyddwn ni wedi rhoi eich caniatâd i farchnata i chi y byddwn yn anfon e-bost neu'n eich ffonio. Gallwch nodi eich dewisiadau marchnata wrth roi rhodd, cymryd rhan yn ein loterïau neu rafflau, neu gofrestru eich diddordeb yn ein gwaith. Os nad ydych chi'n dymuno cael gohebiaeth farchnata neu apeliadau yn gofyn am rodd i helpu i newid bywydau plant, mae'n gyflym ac yn hawdd rhoi gwybod i ni yn y Tîm Gofal Cefnogwyr gyda'r manylion cyswllt wedi'u nodi ar waelod yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn. Gallwch hefyd optio allan o'n gohebiaeth farchnata ar unrhyw adeg trwy glicio ar y ddolen 'dad-danysgrifio' ar ddiwedd ein negeseuon e-bost marchnata neu anfon neges destun "opt-out" gan ddilyn y cyfarwyddiadau a roddir gennym yn ein neges destun gyntaf. Ni fyddwn byth yn trosglwyddo eich data personol i sefydliadau eraill i gael ei ddefnyddio i'w dibenion marchnata eu hunain.

Mae gan Barnardo's ddiddordeb dilys mewn cadw rhestrau o bobl nad ydynt yn dymuno i ni gysylltu â nhw mwyach (a elwir yn rhestr atal) i sicrhau nad ydym yn cysylltu â nhw'n anfwriadol yn y dyfodol. Mae'r rhestr atal hefyd yn casglu negeseuon e-bost sy'n bownsio, yn cael eu rhwystro, neu'n annilys. Mae Barnardo's hefyd yn cadw rhestrau atal o gefnogwyr a chefnogwyr posibl sydd wedi gofyn am gael tynnu eu henwau oddi ar ein rhestrau postio neu farchnata am yr un rheswm.

Rydym wedi ymrwymo i warchod preifatrwydd plant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â ni trwy ein gwefan, gwasanaethau digidol, digwyddiadau codi arian, loterïau, deunyddiau marchnata a rhestrau cyfathrebu. Pan fydd plant a phobl ifanc yn codi arian neu'n cymryd rhan mewn digwyddiadau ar ran Barnardo's, byddwn yn gofyn am gydsyniad rhieni/gwarcheidwaid i gymryd rhan pan fyddant dan 16 oed. Os yw'r plentyn o dan 13 oed, byddwn yn cysylltu â rhiant/gwarcheidwad i ofyn am gydsyniad i gyfathrebu â'r plentyn cyn cymryd rhan.

Ymchwil i gefnogwyr posibl

Mae Barnardo's yn cynnal ymchwil i gefnogwyr posibl o dan ei ddiddordeb cyfreithlon, sef canfod darpar roddwyr a dylanwadwyr pwysig ac ymchwil dilynol iddynt – unigolion, ymddiriedolaethau a chwmnïau – gyda'r bwriad o sicrhau'r gefnogaeth orau bosibl i ni. Mae'n golygu casglu a dadansoddi gwybodaeth fywgraffyddol, ariannol, gorfforaethol a dyngarol o amrywiaeth eang o ffynonellau, sydd ar gael i'r cyhoedd a'r rhai sy'n unigryw i Barnardo's.

Mae natur y data a gesglir yn cynnwys:

- Manylion Cyswllt
- Cyfeiriad Cartref
- Cyfeiriad E-bost Personol
- Hanes Rhoi

- Aelodaeth Broffesiynol
- Hanes Addysg a Hyfforddiant

Personoleiddio a phroffilio

Rydym yn cynnal gweithgareddau codi arian ac ymgyrchu wedi'u targedu i sicrhau ein bod yn cysylltu â chi gyda'r ohebiaeth fwyaf priodol a pherthnasol, er enghraifft drwy ddarparu newyddion amserol am ein gwaith, a rhoi gwybod i chi am y gwahanol ffyrdd y gallwch ein cefnogi a'n helpu i godi arian. Er mwyn gwneud hyn, gallwn ddefnyddio technegau proffilio, a gallwn gyflogi cwmnïau pwrpasol i ddarparu gwybodaeth gyffredinol amdanoch chi, am eich ffordd o fyw a'ch arferion prynu.

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn defnyddio eich data personol i ddeall pa mor debygol ydych chi o ymateb i ohebiaeth codi arian gennym ni, a rhoi arian o bosibl. Er enghraifft, rydym yn defnyddio systemau fel Mosaic i greu categorïau cefnogwyr yn ein cronfa ddata yn seiliedig ar godau post a byddwn, lle bo hynny'n briodol, yn storio'r wybodaeth hon ar eich cofnod. Byddwn hefyd yn defnyddio gwybodaeth ddemograffig gyffredinol fel ystadegau a dadansoddiadau gan drydydd partïon i ddeall yn well sut mae ein sylfaen cefnogwyr ein hunain yn cymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

Gyda phwy ydym ni'n rhannu eich data personol?

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich data personol â thrydydd partïon sy'n darparu gwasanaeth i ni. Mae hyn yn cynnwys partneriaid dibynadwy sy'n gweithio gyda ni mewn perthynas â'n dibenion elusennol, ac endidau eraill sy'n codi arian dros Barnardo's, yn gwerthu cynnyrch Barnardo's, yn cymryd rhan mewn loterïau neu rafflau Barnardo's (e.e. Loteri Gweithle Clwb yr Enillwyr) neu'n darparu gwybodaeth a gwasanaethau marchnata Barnardo's. Rydym hefyd yn rhannu eich data pan fydd angen i ni gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy i sicrhau nad ydym yn cael ein cam-drin gan dwyllwyr neu droseddwyr sy'n honni eu bod yn rhoddwyr go iawn.

Am ba hyd ydyn ni'n cadw eich data personol?

Rydym yn cadw eich data personol am gyhyd ag y bydd angen i redeg y gwasanaeth yn unol â gofynion cyfreithiol a rheolau treth a chyfrifyddu. Os na fydd angen eich gwybodaeth mwyach, byddwn yn sicrhau ei bod yn cael ei dinistrio mewn modd diogel. Fel arfer, bydd hyn o fewn chwe blynedd i'ch rhodd ddiwethaf.

C. Ymwelwyr â'n siopau a'n gwefan

Mae'r adran hon yn egluro pa wybodaeth mae Barnardo's yn ei chasglu, yn ei chadw ac yn ei storio amdanoch pan fyddwch yn ymweld â'n hadeiladau, ein gwefan neu ein siopau ar-lein, gan gynnwys siop eBay Barnardo's. Rydym yn defnyddio cwcis ar ein gwefan siopa. Darllenwch ein Hysbysiad Cwcis i gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio cwcis.

Pa ddata personol ydym ni'n ei gasglu?

Gall y data personol rydym yn ei gasglu gynnwys:

- Enw
- Cyfeiriad

- cyfeiriad e-bost
- rhifau ffôn
- dyddiad geni (dewisol)
- manylion ariannol/talu
- statws cymorth rhodd
- dewisiadau cysylltu
- hanes prynu a
- delweddau sy'n cael eu tynnu drwy deledu cylch cyfyng

Pam fod angen i ni gasglu eich data personol?

Rydym yn casglu eich data er mwyn derbyn a chyflawni archebion cwsmeriaid a gweinyddu a gwella'r gwefannau a'r gwasanaethau. Byddwn hefyd yn defnyddio eich data i roi cadarnhad o'ch archeb ac anfoneb gwerthiant i chi. Rydym yn prosesu'r wybodaeth hon yn unol â'n rhwymedigaethau cytundebol i ddarparu nwyddau a gwasanaethau i chi, ac yn unol â'n buddiant cyfiawn o ran rhedeg a gwella ein gwefannau a'n siopau'n effeithlon.

Os byddwch yn rhoi eitemau yn ein siopau stryd fawr, a'ch bod yn dalwr treth yn y Deyrnas Unedig, gallwn ofyn am eich caniatâd i hawlio Cymorth Rhodd ar yr eitemau hynny. Os byddwch yn cofrestru ar gyfer Cymorth Rhodd, byddwn yn ysgrifennu atoch pan fydd eich eitemau ail-law yn cael eu gwerthu i roi gwybod i chi faint roeddem yn gallu ei hawlio mewn Cymorth Rhodd yn erbyn gwerth y nwyddau a werthwyd.

Os byddwch yn defnyddio eich cerdyn credyd neu ddebyd i brynu rhywbeth, byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn ddiogel. Ni fyddwn yn storio manylion eich cerdyn credyd neu ddebyd ar ôl cwblhau'r trafodiad. Bydd holl fanylion eich cerdyn yn cael eu dinistrio'n ddiogel cyn gynted ag y bydd y taliad neu'r rhodd wedi'u prosesu. Dim ond staff awdurdodedig sydd wedi'u hyfforddi i brosesu taliadau sy'n gallu gweld manylion eich cerdyn.

Mae Barnardo's yn defnyddio CCTV mewn rhai siopau yn unol â'i fuddiannau cyfreithlon, wrth gadw staff, gwirfoddolwyr a chwsmeriaid yn ddiogel. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym Mholisi Dyfeisiau Monitro a CCTV Barnardo's.

Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio eich manylion cyswllt i anfon deunydd marchnata atoch pan fyddwn wedi cael eich cydsyniad, neu pan fydd gennym gydsyniad i wneud hynny yn ôl y gyfraith berthnasol. Gallwch nodi eich dewisiadau marchnata pan fyddwch yn prynu. Os nad ydych chi'n dymuno cael gohebiaeth farchnata, mae'n gyflym ac yn hawdd rhoi gwybod i ni yn y Tîm Gofal Cefnogwyr, gyda'r manylion cyswllt wedi'u nodi ar ddiwedd yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn.

Gallwch hefyd optio allan o'n gohebiaeth farchnata ar unrhyw adeg trwy glicio ar y ddolen 'datdanysgrifio' ar ddiwedd ein negeseuon e-bost marchnata neu anfon neges destun "opt-out" gan ddilyn y cyfarwyddiadau a roddir gennym yn ein neges destun gyntaf. Ni fyddwn byth yn trosglwyddo eich data personol i sefydliadau eraill i gael ei ddefnyddio i'w dibenion marchnata eu hunain.

Gyda phwy ydym ni'n rhannu eich data personol?

Mewn rhai achosion pan fyddwch chi'n prynu nwyddau o siop ar-lein neu siop eBay Barnardo's, mae'n bosib y bydd trydydd parti'n gwneud y gwaith o gyflawni eich archeb. Yn yr achosion hyn, byddwn yn rhoi manylion y nwyddau a archebwyd iddynt a'ch enw a'ch cyfeiriad at ddibenion anfon. Rydyn ni hefyd yn rhannu eich manylion cyswllt â'n cyflenwyr, ein darparwyr warws a logisteg i gwblhau eich archeb.

Mae'n bosibl y bydd eich data ariannol a/neu bersonol yn cael ei drosglwyddo i sefydliadau trydydd parti er mwyn prosesu eich trafodion gyda Barnardo's, fel cwmnïau cardiau credyd, banciau a chwmnïau sy'n delio â chludo ar ein rhan. Byddwn hefyd yn rhannu eich data â HMRC os byddwch yn rhoi caniatâd i ni i hawlio Cymorth Rhodd ar eich rhodd.

Am ba hyd ydyn ni'n cadw eich data personol?

Rydym yn cadw eich data personol am hyd at chwe blynedd, ac eithrio data ariannol, y mae'n rhaid i ni ei gadw am saith mlynedd. Os na fydd angen eich gwybodaeth mwyach, byddwn yn sicrhau ei bod yn cael ei dinistrio mewn modd diogel.

d. Ymgeiswyr am Swyddi a Darpar-wirfoddolwyr

Mae'r adran hon yn egluro pa wybodaeth mae Barnardo's yn ei chasglu, yn ei chadw ac yn ei storio amdanoch pan fyddwch yn gwneud cais am swydd gyda ni.

Pa ddata personol ydym ni'n ei gasglu?

Byddwn yn casglu amrywiaeth o wybodaeth amdanoch, gan gynnwys:

- Eich enw, cyfeiriad a manylion cyswllt, fel cyfeiriad e-bost a rhif ffôn;
- Eich dewisiadau cyswllt;
- Dyddiad geni, oedran, rhywedd, cenedligrwydd, statws preswyliaeth, euogfarnau troseddol, achosion disgyblu sy'n weddill ac ieithoedd a siaredir;
- Gwybodaeth am y canolwr;
- Manylion am eich cymwysterau, sgiliau, profiad, addysg a hanes cyflogaeth;
- Gwybodaeth am eich cyflog presennol;
- A oes gennych chi anabledd a fyddai'n golygu bod angen i ni wneud addasiadau rhesymol yn ystod y broses recriwtio;
- Gwybodaeth am eich hawl i weithio/gwirfoddoli yn y Deyrnas Unedig; a
- Gwybodaeth monitro cyfle cyfartal, gan gynnwys gwybodaeth am eich tarddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, iechyd, a chrefydd neu gred. Ni fyddwn yn casglu'r wybodaeth hon heb eich cydsyniad penodol, a byddwch yn gallu tynnu'r cydsyniad hwnnw'n ôl ar unrhyw adeg.

Rydym yn casglu'r data hwn mewn amrywiaeth o ffyrdd. Er enghraifft, mae'n bosibl eich bod wedi llenwi ffurflen gais, wedi cyflwyno CV neu fanylion eich gyrfa, wedi rhoi manylion eich pasbort neu ddogfennau adnabod eraill, neu gallwn fod wedi casglu eich gwybodaeth trwy gyfweliadau neu fath arall o asesiad, fel profion ar-lein.

Gallwn hefyd gasglu gwybodaeth amdanoch gan drydydd parti, fel geirdaon a gyflenwyd gan gyn gyflogwyr. Yn achos ymgeiswyr am swyddi, ni fydd Barnardo's yn gofyn i drydydd parti am wybodaeth amdanoch cyn i ni gynnig swydd i chi. Yr eithriad fydd ar gyfer rolau mewn ysgolion lle bydd angen i ni

gael geirdaon cyn y cyfweliad. Ym mhob achos, bydd y broses ymgeisio yn datgan yn glir ar ba adeg y byddwn yn cysylltu ag unrhyw drydydd parti. Yn achos ymgeiswyr gwirfoddol, bydd Barnardo's yn gofyn am wybodaeth gan drydydd partïon yn ystod y broses recriwtio gwirfoddolwyr.

Pam fod angen i ni gasglu eich data personol?

Rydym yn prosesu eich data personol er mwyn gweinyddu eich cais am swydd neu gyfle i wirfoddoli, a monitro ystadegau recriwtio. Mewn rhai achosion mae angen i ni brosesu eich data i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol, e.e. gwirio hawl unigolyn i weithio yn y Deyrnas Unedig.

Mae gennym fuddiant cyfiawn mewn prosesu eich data personol er mwyn rheoli ein proses recriwtio, asesu a chadarnhau eich addasrwydd ar gyfer y swydd a phenderfynu i bwy y dylem gynnig swydd. Mae'n bosibl y bydd angen i ni hefyd brosesu data ymgeiswyr am swyddi a chyfleoedd i wirfoddoli yn unol â'n buddiant cyfiawn wrth ymateb i hawliadau cyfreithiol, ac i amddiffyn yn eu herbyn.

Rydym yn prosesu gwybodaeth iechyd os bydd angen i ni wneud addasiad rhesymol i'r broses recriwtio ar gyfer ymgeiswyr ag anabledd. Gwneir hyn er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau ac i weithredu hawliau penodol sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.

Yn achos rhai rolau mae disgwyl i Barnardo's chwilio am wybodaeth am gollfarnau a throseddau. Mae angen hyn er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau ac i weithredu hawliau penodol sy'n gysylltiedig â chyflogaeth a gwirfoddoli.

Mae rhai o brosesau recriwtio staff a gwirfoddolwyr Barnardo's yn gwbl seiliedig ar broses benderfynu awtomatig, fel:

- pan ofynnir i ymgeiswyr gadarnhau bod ganddynt yr hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig;
- pan fydd ymgeiswyr yn cadarnhau nad ydynt wedi'u gwahardd rhag gwneud swyddi sy'n gweithio mewn gweithgareddau a reoleiddir; ac
- wrth gadarnhau bod gan yr ymgeisydd drwydded yrru lân a dilys lle mae gyrru yn ofyniad hanfodol ar gyfer y swydd.

Os na fydd ymgeisydd yn gallu cyflawni'r gofynion hyn, ni fydd eu cais yn mynd yn bellach. Os byddai ymgeisydd yn dymuno herio unrhyw benderfyniad awtomatig o fewn y broses recriwtio yna dylent gysylltu â'r tîm recriwtio drwy'r cyfeiriad e-bost recruitment.support@barnardos.org.uk neu'r tîm gwirfoddolwyr volunteering@barnardos.org.uk.

Gyda phwy ydym ni'n rhannu eich data personol?

Fel rhan o'r broses recriwtio mae'n bosibl y bydd angen i ni rannu eich data â thrydydd parti er mwyn gwneud unrhyw wiriadau i'ch cefndir a phrosesau fetio angenrheidiol, fel cysylltu â chyn gyflogwyr / canolwyr i gael geirda; a / neu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i wirio cofnodion troseddol. Fel rhan o'r broses recriwtio, byddwn yn datgan yn glir pa wiriadau fydd eu hangen ac ym mha gam o'r broses fyddant yn cael eu gwneud.

Am ba hyd ydyn ni'n cadw eich data personol?

Bydd data personol am ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei gadw am flwyddyn ar ôl cwblhau'r ymarferiad recriwtio. Yr eithriad i hyn yw Gogledd Iwerddon lle mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i gadw'r wybodaeth i ddibenion adrodd ar Gyflogaeth Deg am dair blynedd. Bydd nodiadau cyfweliadau ymgeiswyr aflwyddiannus am swyddi yn cael eu dinistrio ar ôl chwe mis. Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus am gyfleoedd gwirfoddoli yn cael eu gwneud yn ddienw ar system rheoli gwirfoddolwyr Barnardo's ar ôl blwyddyn. Rydym yn cadw gwybodaeth ystadegol wedi'u dadbersonoleiddio am ymgeiswyr i'n helpu i fonitro ein gweithgarwch recriwtio, ond ni fydd modd adnabod dim unigolion trwy'r data.

Os byddwch yn creu cyfrif ar ein system recriwtio cyflogaeth neu wirfoddoli ar-lein, byddwn yn cadw eich data ar ffeil nes i chi ddileu eich cyfrif, ac wedyn bydd eich data'n cael ei ddileu a'i ddinistrio. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd data personol a gesglir yn ystod y broses recriwtio yn cael ei drosglwyddo i'ch ffeil personél a bydd yn cael ei gadw'n unol â'n polisi cadw. Os bydd eich cais am gyfle i wirfoddoli yn llwyddiannus, bydd data personol a gesglir yn ystod y broses recriwtio yn cael ei gadw ar eich ffeil gwirfoddolwyr ar ein system rheoli gwirfoddolwyr**.**

e. Ein cyflogeion presennol a chyn gyflogeion, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr

Mae'r adran hon yn egluro sut mae Barnardo's yn casglu ac yn prosesu data personol sy'n gysylltiedig â staff a gwirfoddolwyr er mwyn rheoli'r berthynas waith â chi.

Pa ddata personol ydym ni'n ei gasglu?

Mae Barnardo's yn casglu ac yn prosesu amrywiaeth o wybodaeth amdanoch sy'n briodol i'r rôl rydych yn ei chyflawni â ni. Bydd hyn yn dibynnu a ydych chi'n aelod cyflogedig o'r staff, yn weithiwr achlysurol ('yn ôl y galw'), gwirfoddolwr, contractwr, gweithiwr asiantaeth neu fyfyriwr, a gall gynnwys:

- Eich enw, cyfeiriad a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad e-bost a rhif ffôn, yn ogystal â dewisiadau cyswllt;
- Dyddiad geni, oedran;
- Rhywedd, rhyw, tueddfryd rhywiol, ethnigrwydd, crefydd, cenedligrwydd, statws preswyliad, euogfarnau troseddol ac ieithoedd a siaredir
- Lleoliad;
- Eich delwedd os ydych yn gweithio mewn swyddfa, gwasanaeth neu siop sydd â Theledu Cylch Cyfyng;
- Y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r gwaith rydych yn ei wneud i Barnardo's;
- Manylion eich cymwysterau, sgiliau, profiad a hanes cyflogaeth, gan gynnwys dyddiadau cychwyn a gorffen gyda chyflogwyr blaenorol ac â ni;
- Gwybodaeth am eich cyflogaeth, gan gynnwys eich hawl i fuddiannau fel pensiynau neu yswiriant marwolaeth mewn gwasanaeth;
- Manylion eich cyfrif banc a'ch rhif yswiriant gwladol;
- Gwybodaeth am eich statws priodasol, eich perthynas agosaf, dibynyddion a chysylltiadau mewn argyfwng;
- Gwybodaeth am eich cenedligrwydd a'ch hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig;
- Gwybodaeth am gofnodion troseddol;
- Gwybodaeth berthnasol os ydych chi'n gyrru cerbyd fflyd, eich cerbyd eich hun i ddibenion busnes neu os byddwn yn llogi car ar eich cyfer;
- Cofnod ohonoch yn mynd i mewn ac allan o eiddo a lleoliadau gwaith Barnardo's, lle ceir trwyddedau a gweithdrefnau mewngofnodi ar gyfer rhesymau diogelwch ac iechyd a diogelwch;

- Manylion am eich amserlen (dyddiau gwaith ac oriau gweithio/gwirfoddoli) a phresenoldeb yn y gwaith/cyfle gwirfoddoli;
- Manylion am gyfnodau absenoldeb, gan gynnwys gwyliau, absenoldeb oherwydd salwch, absenoldeb am resymau teuluol ac absenoldeb estynedig, a'r rhesymau am yr absenoldeb;
- Manylion am unrhyw gamau disgyblu staff neu gwynion, neu weithdrefnau datrys problemau gwirfoddolwyr rydych chi wedi bod yn gysylltiedig â nhw, gan gynnwys unrhyw rybudd yn eich erbyn a gohebiaeth gysylltiedig;
- Asesiadau o'ch perfformiad, gan gynnwys arfarniadau, adolygiadau perfformiad, a sgorio, hyfforddiant rydych wedi'i gael, cynlluniau gwella perfformiad a gohebiaeth gysylltiedig;
- Gwybodaeth am gyflyrau meddygol neu iechyd, sy'n cynnwys unrhyw anabledd y bydd angen i'r sefydliad wneud addasiadau rhesymol ar ei gyfer; a
- Gwybodaeth monitro cyfle cyfartal, gan gynnwys gwybodaeth am eich tarddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, iechyd a chrefydd neu gred.

Rydym yn casglu eich gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd. Er enghraifft:

- O ffurflen gais, neu CV neu grynodeb swyddi;
- O'ch pasbort neu ddogfennau adnabod eraill;
- O ffurflenni a gwblhawyd ar ddechrau neu yn ystod eich cyflogaeth neu gyfleoedd gwirfoddoli gyda ni;
- O ohebiaeth gyda chi; neu
- Drwy gyfweliadau, cyfarfodydd neu asesiadau eraill.

Gallwn hefyd gasglu gwybodaeth amdanoch gan drydydd partïon, fel asiantaethau recriwtio, geirdaon a gafwyd gan gyn gyflogwyr, a gwybodaeth trwy wirio cofnodion troseddol fel a ganiateir gan y gyfraith.

Pam fod angen i ni gasglu eich data personol?

Mae angen i Barnardo's brosesu eich data i ffurfio perthynas weithio/gwirfoddoli â chi ac i gyflawni ein rhwymedigaethau contract o dan unrhyw gytundeb â chi. Er enghraifft, os ydych chi'n gyflogai, mae angen i ni brosesu eich data i lunio contract cyflogi ar eich cyfer, i'ch talu'n unol â'r contract hwnnw ac i weinyddu unrhyw fudd-daliadau.

Mewn rhaid achosion, bydd angen i Barnardo's brosesu data i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol. Er enghraifft, mae'n ofynnol i wirio hawl gweithiwyr i weithio neu wirfoddoli yn y Deyrnas Unedig, i ddidynnu treth, i gydymffurfio â chyfreithiau iechyd a diogelwch ac i alluogi cyflogeion i gymryd cyfnodau o absenoldeb mae ganddynt hawl i'w cymryd. Yn achos rhai swyddi, bydd angen gwirio cofnodion troseddol i sicrhau bod gan unigolion yr hawl i gyflawni'r rôl dan sylw.

Mewn achosion eraill, mae gan Barnardo's fudd cyfreithiol mewn prosesu data personol, cyn, yn ystod ac ar ddiwedd perthynas weithio. Mae prosesu data staff a gwirfoddolwyr yn galluogi'r sefydliad i:

- Redeg prosesau recriwtio a rheoli talent;
- Cadw cofnodion a manylion cyswllt yn gywir a chyfoes (gan gynnwys manylion am bwy i gysylltu â hwy mewn argyfwng), a chofnodion contractau a hawliau statudol;

- Gweithredu a chadw cofnod o brosesau disgyblu, cwynion neu ddatrys problemau, i sicrhau ymddygiad derbyniol yn y gweithle;
- Gweithredu a chadw cofnod o berfformiad a phrosesau cysylltiedig, a phrosesau rheoli'r gweithlu;
- Gweithredu a chadw cofnod o absenoldeb a gweithdrefnau rheoli absenoldeb, i allu rheoli'r gweithlu'n effeithiol a sicrhau bod cyflogeion yn cael y tâl a'r buddion eraill mae ganddynt hawl i'w cael;
- Cael cyngor ar iechyd galwedigaethol, i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â dyletswyddau i unigolion ag anableddau, i gyflawni ei rwymedigaethau o dan gyfraith iechyd a diogelwch, a sicrhau bod gweithwyr yn cael y tâl salwch a'r buddion eraill mae ganddynt hawl i'w cael;
- Gweithredu a chadw cofnodion o fathau eraill o absenoldeb (gan gynnwys absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu ac absenoldeb rhiant a rennir), i allu rheoli'r gweithlu'n effeithiol, i sicrhau bod Barnardo's yn cydymffurfio â dyletswyddau o ran yr hawl i gyfnodau o absenoldeb, ac i sicrhau bod gweithwyr yn cael y tâl a'r buddion eraill mae ganddynt hawl i'w cael;
- Sicrhau bod adnoddau dynol, gwirfoddoli a'r busnes yn gyffredinol yn cael eu gweinyddu'n effeithiol;
- Cyflenwi geirdaon ar gais i gyflogeion a gwirfoddolwyr cyfredol neu gyn gyflogeion/gwirfoddolwyr;
- Ymateb i ac amddiffyn hawliadau cyfreithiol; a
- Chynnal a hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithle.

Mae Barnardo's yn defnyddio teledu cylch cyfyng yn rhai o'i siopau. Dyma'r dibenion y byddwn yn defnyddio teledu cylch cyfyng ar eu cyfer:

- Monitro cydymffurfiad staff â'n polisïau a'n gweithdrefnau;
- Gwella diogelwch ein hadeiladau a'n heiddo;
- Cymorth i atal, canfod neu erlyn gweithredoedd troseddol; a
- Gwella diogelwch personol staff, gwirfoddolwyr a chwsmeriaid a gweithredu fel rhwystr yn erbyn troseddu.

Mae rhai categorïau o ddata personol, fel gwybodaeth am iechyd neu gyflyrau meddygol, yn cael eu prosesu i gyflawni rhwymedigaethau cyfraith gyflogaeth (fel rhai sy'n gysylltiedig â chyflogeion ag anableddau ac i ddibenion iechyd a diogelwch). Mae gwybodaeth am aelodaeth o undeb llafur yn cael ei phrosesu i alluogi Barnardo's i ddidynnu tanysgrifiadau undebau llafur (pan fydd hyn yn cael ei brosesu trwy'r gyflogres).

Pan fyddwn yn prosesu categorïau arbennig eraill o ddata personol, fel gwybodaeth am darddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, iechyd neu grefydd neu gred, gwneir hyn gyda'ch cydsyniad penodol chi neu pan fydd er budd y cyhoedd i wneud hynny, er mwyn sicrhau cyfle cyfartal ystyrlon neu fonitro amrywiaeth.

Gyda phwy ydym ni'n rhannu eich data personol?

Mae Barnardo's yn rhannu eich data â thrydydd partïon i gael geirdaon gan gyflogwyr eraill cyn cyflogi neu roi cyfle i wirfoddoli ac, os yn berthnasol i'r rôl, i wneud y gwiriadau angenrheidiol i gofnodion troseddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Disclosure Scotland ac AccessNI. Gall Barnardo's hefyd rannu eich data â thrydydd partïon yng nghyd-destun trosglwyddiadau TUPE. Yn yr amgylchiadau hynny bydd eich data'n dod o dan drefniadau cyfrinachedd. Mae'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i blant a

phobl ifanc yn amodol ar reoleiddio allanol, felly os ydych chi'n gweithio mewn gwasanaeth bydd eich data'n cael ei rannu ag arolygwyr, a gall data gwasanaeth a gomisiynir gael ei rannu â'r comisiynydd.

Mae Barnardo's hefyd yn rhannu eich data â thrydydd partïon sy'n prosesu data ar ein rhan, mewn cysylltiad â chyflogres, darparu budd-daliadau, darparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol, ein system rheoli gwirfoddolwyr ac archifo data personol oddi ar y safle ar ôl i chi adael cyflogaeth Barnardo's.

Am ba hyd ydyn ni'n cadw eich data personol?

Os ydych chi'n gyflogai neu'n wirfoddolwr, byddwn yn cadw eich data personol am chwe blynedd ar ôl i'ch perthynas waith ddod i ben, oni bai eich bod yn gweithio ym maes gwasanaethau plant. Yn yr achos hwn, oherwydd natur ein gwaith, ac er mwyn cyflawni ein hymrwymiadau diogelu, gallwn gadw peth o'ch data tan eich pen blwydd yn 75 oed, ond bydd hynny'n dibynnu ar eich swydd.

3. Rhannu eich data a'i drosglwyddo i wledydd eraill

Yn ogystal â'r trydydd partïon a ddisgrifir ym mhob adran berthnasol uchod, mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich data personol:

- Gydag aelodau o'n grŵp, sy'n golygu'r elusen gofrestredig, ei gwmni daliannol a'i is-gwmnïau, fel a ddiffinnir gan adran 1159 o Ddeddf Cwmnïau'r Deyrnas Unedig 2006;
- Gyda phartneriaid busnes, cyflenwyr ac is-gontractwyr, gan gynnwys:
    - Darparwyr ein siopau ar-lein a'n tudalennau codi arian, eiriolaeth, marchnata e-bost a digwyddiadau;
    - Ein systemau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid;
    - Systemau archifo a storio;
    - Comisiynwyr, argraffwyr, tai cyflenwi, ffotograffwyr, fideograffwyr, dylunwyr creadigol, asiantaethau creadigol, a darparwyr arolygon ar-lein;
    - Yswirwyr, cyfreithwyr, broceriaid, aseswyr colledion, asiantaethau rheoli a landlordiaid; a
    - Darparwyr dadansoddeg a chwilotwyr sy'n ein helpu i wella ac optimeiddio ein safle;
- Pan fydd dyletswydd arnom i ddatgelu neu rannu eich gwybodaeth bersonol er mwyn cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, neu er mwyn gweithredu ein Telerau Defnyddio a chytundebau eraill, neu i warchod hawliau, eiddo, neu ddiogelwch Barnardo's, ein rhoddwyr, buddiolwyr neu eraill. Mae hyn yn cynnwys cyfnewid gwybodaeth â chwmnïau a sefydliadau eraill i ddibenion diogelu rhag twyll a lleihau risg i gredyd;
- Gyda darpar werthwr neu brynwr ein busnes neu asedau pe baem am werthu neu brynu busnes neu asedau o'r fath, gan gynnwys lle mae Barnardo's neu'r rhan fwyaf o'i asedau'n cael eu caffael gan drydydd parti, pan fyddai data personol yn un o'r asedau a drosglwyddid;
- Lle bo'n ofynnol gwneud hynny yn ôl y gyfraith, neu lle bo'r datgeliad yn 'angenrheidiol' at ddibenion diogelwch gwladol, trethu ac ymchwilio troseddol;
- Ar gyfer gweithwyr, gydag asiantaethau cyflogres, Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, cwmnïau pensiwn, yswiriant a chyrff statudol; a
- Phan fyddwn wedi cael eich caniatâd ysgrifenedig.

Mae'n bosibl bydd y data a gasglwn gennych yn cael ei drosglwyddo i leoliad y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac yn cael ei storio yno. Mae rhai o'n partneriaid yn rhedeg eu gweithrediadau y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac mae'n bosibl na fydd y gwledydd hyn yn darparu'r un safon o ddiogelu data â'r

Deyrnas Unedig. Gall eich data gael ei brosesu hefyd gan staff sy'n gweithredu yn y lleoliadau hyn sy'n gweithio i ni neu i'n darparwyr gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys staff sy'n gyfrifol am, ymhlith pethau eraill, lletya'r safle a darparu gwasanaethau cymorth. Yn yr achosion hyn, byddwn yn cymryd y camau i wneud yn siŵr bod mesurau diogelu priodol ar waith (yn unol â Deddf Diogelu Data'r Deyrnas Unedig) a bod yr wybodaeth honno'n cael ei diogelu. Mae'r mesurau diogelu hyn yn cynnwys sicrhau bod Barnardo's a'r derbynnydd perthnasol yn ymrwymo i Gymalau Contractiol Safonol. Os hoffech gael copi o'r mesurau diogelu hyn, cysylltwch â ni fel y nodir isod (gweler Adran 5).

Gwefannau Trydydd Parti

Gall ein gwefannau gynnwys dolenni at wefannau trydydd parti. Mae'r hysbysiad hwn yn gymwys i'r safle hwn yn unig, felly os byddwch yn dilyn dolen i safle trydydd parti, dylech wneud yn siŵr eich bod yn darllen hysbysiad preifatrwydd y safle hwnnw. Nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb am safleoedd trydydd parti.

4. Sut ydym ni'n cadw eich data yn ddiogel?

Rydym yn cymryd diogelwch eich data personol o ddifri. Mae gennym bolisïau, rheolaethau a mesurau diogelwch ar waith i sicrhau nad yw eich data'n cael ei golli, ei ddinistrio ar ddamwain, ei gamddefnyddio na'i ddatgelu, ac mai dim ond ein cyflogeion a'n gwirfoddolwyr wrth gyflawni eu dyletswyddau priodol fydd yn cael mynediad ato.

Rydym yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod ein gweithdrefnau diogelwch yn cyflawni'r hyn maent wedi'u creu i'w wneud a bod unrhyw gyfathrebu rhyngoch chi â'n gwefannau wedi'i ddiogelu trwy amgryptio (mae hyn yn golygu bod unrhyw gysylltiadau'n cael eu trosi'n godau ac mai gwefannau Barnardo's yn unig sy'n gallu eu deall, ac sydd felly'n atal pobl heb awdurdod rhag eu gweld). Rydym yn cydweithio'n agos â phrif bartneriaid technegol y diwydiant i wneud yn siŵr bod eich holl ddata personol, gan gynnwys data talu, yn saff a diogel.

Dylech sylweddoli y bydd unrhyw ddata personol y byddwch yn dewis ei gyhoeddi ar rannau cyhoeddus ein gwefannau'n gallu cael ei ddarllen, ei gasglu, neu ei ddefnyddio gan ddefnyddwyr eraill. Nid ydym yn gyfrifol am y data personol rydych yn dewis ei wneud yn gyhoeddus. Hefyd, nid ydym yn gyfrifol am y cynnwys yr ydych yn ei bostio'n gyhoeddus ar y safle y gellir dod o hyd iddo drwy chwilotwyr ar y we.

Lle byddwn wedi rhoi cyfrinair i chi (neu lle'r ydych chi wedi dewis un) sy'n eich galluogi i gael mynediad at rannau penodol o'r safle, rydych yn gyfrifol am gadw'r cyfrinair hwn yn gyfrinachol. Rydym yn gofyn i chi beidio â rhannu'r cyfrinair hwnnw â neb.

5. Eich Hawliau Cyfreithiol

Mae gennych chi'r hawliau canlynol mewn perthynas â'ch data personol:

- Yr hawl i gael gwybod am y data rydym yn ei gadw ac yn ei rannu amdanoch chi. Caiff hyn ei ddisgrifio i chi drwy'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn ac yn y daflen wybodaeth sy'n ymwneud yn benodol â'r gwasanaeth a ddarparwn i chi os ydych chi'n ddefnyddiwr gwasanaeth, neu drwy eich rheolwr llinell os ydych chi'n aelod o staff neu'n wirfoddolwr.

- Yr hawl i gael mynediad at eich data personol. Trwy wneud cais mynediad gwrthrych, cewch wybod pa ddata personol sydd gennym amdanoch, pam rydym yn ei gadw ac i bwy yr ydym yn ei ddatgelu. Gallwch wneud cais mynediad gwrthrych i ni yn ysgrifenedig, drwy e-bost, drwy ffonio eich pwynt cyswllt yn y sefydliad neu ein tîm gofal cefnogwyr. Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi ddangos prawf o bwy ydych chi - gallwch lawrlwytho ffurflen safonol o'r wefan hon i helpu i wneud y broses yn gyflymach a haws.
- Yr hawl i olygu a diweddaru eich data personol. Gofynnwn i chi ein hysbysu os bydd eich data personol yn newid yn ystod cyfnod eich perthynas â ni.
- Mewn achosion penodol, yr hawl i ofyn am gael dileu eich data personol.
- Mewn achosion penodol, yr hawl i gyfyngu ar brosesu eich data personol.
- Yr hawl i gludadwyedd data, h.y. cael copi o'r data personol rydych chi wedi'i roi i ni mewn ffordd sy'n hygyrch ac yn hawdd ei darllen â pheiriant, er enghraifft fel ffeil csv, ac i ofyn am drosglwyddo'r data hwn i sefydliad arall lle bo hynny'n dechnegol ymarferol.
- Yr hawl i wrthwynebu ein prosesu, gan gynnwys gwneud penderfyniadau awtomataidd a phroffilio.

Os ydych chi'n dymuno gweithredu eich hawliau, cysylltwch â'n DPO drwy ddefnyddio'r manylion cysylltu a ddarperir yn Adran 1, gan gynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl am natur eich cysylltiad â ni er mwyn ein helpu i leoli eich cofnodion. Gall unrhyw newidiadau y byddwch yn gofyn i ni eu gwneud gymryd 30 diwrnod i ddod i rym. Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais, ac wedi cadarnhau pwy ydych chi, byddwn yn ymateb o fewn mis, oni bai fod y gyfraith berthnasol yn caniatáu cyfnod hwy, er enghraifft pan fydd y cais dan sylw yn gymhleth.

Gallwch wrthwynebu ein bod yn defnyddio eich data personol ar gyfer marchnata unrhyw bryd, drwy gysylltu â'r Tîm Gofal Cefnogwyr. Dylech anfon ceisiadau at:

Tîm Gofal Cefnogwyr
Ffôn: 0800 008 7005

E-bost: supportercare@barnardos.org.uk.